

2012 Rhif 367 (Cy. 62)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Dryslwyn i Nantgaredig, Sir
Gaerfyrddin) (Cyfyngu a Gwahardd
Traffig Dros Dro) 2012**

Wedi'i wneud *14 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, (2) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dryslwyn i Nantgaredig, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r B4297 ar Sgwâr Dryslwyn hyd at bwynt 400 metr i'r gorllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r B4310 yn Nantgaredig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd, yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

7. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Chwefror 2012

G R Morgan

G MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.